

Cyfrifeg a Chyllid

Amser: NAW DEG MUNUD

DYLECH ATEB DAU GWESTIWN YN UNIG o blith y pedwar; mae pob cwestiwn yn gyfwerth eu marciau.

Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.

Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.

Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.

CWESTIWN 1 Atebwch **BOB** Rhan

Dyma grynodeb o ddatganiadau ariannol cwmni hedfan cost isel am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 20X1 a 20X0.

<u>Datganiad o Incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar:</u>	20X1	20X0
	€M	€M
Trosiant	3,630	2,988
Cost gwerthiannau	3,142	2,586
Elw gweithredol	488	402
Incwm cyllid	27	24
Costau cyllid	94	85
Elw cyn treth	421	341
Treth ar elw ar weithgareddau arferol	46	36
Elw ar weithgareddau arferol ar ôl treth	<u>375</u>	<u>305</u>
<u>Mantolen ar 31 Mawrth:</u>	20X1	20X0
	€M	€M
Asedau anghyfredol		
Diriaethol	5,118	4,500
Asedau cyfredol		
Stocrestrau	3	3
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	50	44
Arall	1,397	1,537
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	<u>2,028</u>	<u>1,479</u>
	3,478	3,063
Rhwymedigaethau cyfredol	(1,837)	(1,550)
Rhwymedigaethau anghyfredol	(3,805)	(3,165)
Asedau net	<u>2,954</u>	<u>2,848</u>
Cronfeydd cyfranddalwyr ecwitiol	<u>2,954</u>	<u>2,848</u>

Rhagor o wybodaeth:-

	20X1	20X0
Cyfranddaliadau awdurdodedig	1,485.7M	1,476.4M
Difidend a Dalwyd	€500M	-

Mae angen:

- a. O'r wybodaeth uchod, cyfrifo'r cymarebau ariannol sydd, yn eich barn chi, fwyaf priodol i bwysu a mesur sefyllfa ariannol y cwmni hedfan cost isel ar 31 Mawrth 20X1 a 20X0. Dylech gyfrifo wyth cymhareb o leiaf, gan roi'r fformiwlâu yn amlwg a dangos yr holl waith cyfrifo perthnasol.

(16 marc)

- b. Dehonglwch ganlyniadau'ch gwaith cyfrifo i ran (a) uchod a rhowch eich sylwadau arnynt. Nodwch pa wybodaeth ychwanegol y byddai eu hangen arnoch er mwyn gallu cynnal y dadansoddiad hwnnw yn fanylach.

(8 marc)

- c. Trafodwch yn gryno beth yw cyfyngiadau dadansoddi cymarebau cyfrifon ariannol.

(6 marc)

CWESTIWN 2

Dyma fantolen brawf i Albert Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31/12/2018:-

	Dr	Cr
	£	£
Croniadau		610
Costau gweinyddu	9,850	
Banc		50
Dibrisio cronedig ar geir hyd at 31/12/2018		1,000
Ceir yn ôl y gost	5,000	
Credydwy		3,640
Benthyciad Banc i'w ad-dalu ar 31/12/2040		3,120
Cyflogau Cynhyrchu	560	
Llog a dalwyd	230	
Tir ac adeiladau yn ôl y prisiad ar 31/12/2017	9,890	
Dibrisio cronedig ar gyfarpar ac offer hyd at 31/12/2017		1,000
Cyfarpar ac offer yn ôl y gost	5,000	
Rhagdaliadau	190	
Pryniadau	6,610	
Elw a gedwir ar 31/12/2017		2,055
Cronfa ailbrisiad ar 31/12/2017		95
Gwerthiannau		35,125
Costau dosbarthu	2,685	
Cyfalaf cyfranddaliadau (cyfranddaliadau cyffredin £1.00)		5,130
Stoc ar 31/12/2017	10,410	
Symiau derbyniadwy masnachol	1,400	
	51,825	51,825

Daeth i'r amlwg nad oedd y wybodaeth ychwanegol isod wedi'i chynnwys wrth baratoi'r fantolen brawf hon:

- i. Cyhoeddodd y cwmni 10,000 o gyfranddaliadau newydd am arian parod am £6.00 fesul cyfranddaliad ar 31/12/2018, gan gael y derbyniadau am y cyfan ar yr un diwrnod. Roedd £5.00 o bremiwm cyfranddaliadau wedi'i gynnwys ym mhris y cyfranddaliadau, sef £6.00.
- ii. Ar ôl asesiad terfynol o'r stoc ar 31/12/2018, prisiwyd y stoc yn ôl p'un yw'r isaf, y gost neu'r gwerth gwireddadwy net, ar £16,000.
- iii. Darparwyd ar gyfer dibrisio ar gyfarpar ac offer i ddiddymu'r gost ar sail llinell syth dros 20 mlynedd. Rhoddir y dibrisiad hwn i gost y gwerthiannau. Gallwch dybio nad oes gan yr offer ddim gwerth gweddilliol, ac nad oedd yr un eitem o gyfarpar nac offer yn hŷn na 19 blwydd oed ar 1/1/2018.

- iv. Mae prisiad marchnad dyddiedig 31/12/2018 gan syrfëwr lleol wedi dangos bod y tir a'r adeiladau yn werth £9,795. Mae'r Cyfarwyddwyr yn bwriadu ymgorffori'r prisiad hwnnw yn y datganiadau ariannol.
- v. Mae gan un o gwsmeriaid Albert Cyf lif arian gwael iawn, ac mae arno £1,250 iddynt. Gan fod y cyfrifydd yn ofalus mae wedi penderfynu cymryd darpariaeth drwgddyledion ar gyfer y ddyled gyfan hon. Rhoddir unrhyw ddrwgddyledion neu ddarpariaethau ar gyfer drwgddyledion i'r costau gweinyddu.
- vi. Y bil trydan diweddaraf a gafwyd, ac y talwyd amdano, oedd am £300, sef yr un ar gyfer y tri mis tan ddiwedd mis Tachwedd 2018. Dyrennir biliau trydan 75% i gostau gweinyddol a 25% i gost y gwerthiannau.
- vii. Ar 31/12/2018 cymerodd y cwmni fenthyciad dyledebau (debenturau) ychwanegol am £20,000 i'w ad-dalu ar 31/12/2040.
- viii. Ar 1 Tachwedd 2018 talwyd anfoneb rhent, sef £3,000 am y cyfnod 1 Hydref 2018 tan 31 Mawrth 2019, a rhoddwyd yr anfoneb hon ar y costau gweinyddu.
- ix. Amcangyfrifir mai £7,000 fydd y dreth a godir am y flwyddyn.

Mae angen:

- a. Defnyddio cyfrifon cofnodi dwbl i gofnodi effeithiau'r eitemau i) i ix) uchod. **(12 marc)**
- b. Paratoi datganiad o incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/12/2018, ynghyd â mantolen i'r dyddiad hwnnw, gan ymgorffori'r wybodaeth a roddwyd yn y fantolen brawf ynghyd ag effeithiau'r eitemau i) i ix). **(18 marc)**

CWESTIWN 3

Dechreuwyd busnes Harries Cyf ar 1 Ionawr 2019 a daeth ei flwyddyn i ben ar 31 Rhagfyr 2019. Dyma drafodion Harries Cyf yn ystod y flwyddyn.

- i. Cafodd Harries Cyf gronfeydd am gyfalaf cyfranddaliadau, sef £300,000 ar 1 Ionawr 2019
- ii. Rhoddodd Mrs. Jones fenthyg £500,000 i'r cwmni ar 1 Ionawr 2019 am 10% o log y flwyddyn. Byddai'r llog yn cael ei dalu bob yn chwe mis, sef ar 1 Gorffennaf 2019 a 1 Ionawr 2020.
- iii. Talodd Harries Cyf £5,000 mewn arian parod am hysbysebu yn 'The Local Rag' ar 1 Gorffennaf 2019.
- iv. Yn ystod y flwyddyn prynodd Harries Cyf gyfanswm o 10,000 uned o ddeunydd am £5 fesul uned. Mae angen un uned i gynhyrchu un eitem o nwyddau gorffenedig. Defnyddiodd Harries Cyf bob un o'r unedau hyn i gynhyrchu 10,000 uned o nwyddau gorffenedig erbyn 31 Rhagfyr 2019.
- v. Talwyd cyfanswm o £25,000 mewn arian parod am gostau'r gwresogi a'r goleuadau am y flwyddyn
- vi. Amcangyfrifwyd y byddai gwerth £10,000 o gostau gwres a goleuadau ychwanegol yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, ond ni thalwyd amdanynt erbyn 31 Rhagfyr 2019
- vii. Gwerthwyd 7,000 o unedau o'r nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £30 yr un ar sail credyd
- viii. Erbyn 31 Rhagfyr 2019 roedd Harries Cyf wedi cael £150,000 mewn arian parod am werthu'r nwyddau gorffenedig yn (vii) uchod.
- ix. Gwerthwyd 2,000 o nwyddau gorffenedig i gwsmeriaid am £80 yr un fel gwerthiannau arian parod.
- x. Talwyd rhent ar yr eiddo, sef £96,000, am ddwy flynedd o 1 Ionawr 2019.
- xi. Talwyd y cyflogau i'r cyfnod o fis Ionawr i fis Tachwedd, sef £66,000 ond roedd costau cyflogres mis Rhagfyr, sef £11,000 heb eu talu
- xii. Prynwyd darn newydd o beirianwaith am £24,000 mewn arian parod ar 1 Ionawr 2019 ac mae disgwyl iddo bara am 3 blynedd. Mae Harries Cyf yn tybio nad oes dim gwerth gweddilliol, ac mae'r cwmni yn defnyddio dull y llinell syth o ddibrisio.

- xiii. Ar ddiwedd y flwyddyn cynhaliwyd arolwg o'r stoc. Yn yr arolwg hwnnw cafwyd bod 1,000 uned o stoc orffenedig.

Mae angen:

- a. Cyflwyno'r trafodion uchod ar ffurf cyfrifon T. **(17 marc)**
- b. Paratoi mantolen brawf i Harries Cyf i'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2019. **(13 marc)**

CWESTIWN 4

I ateb cwestiwn 4, dylech roi cynnig ar **DDAU** o'r cwestiynau isod (15 marc sydd ar gael i bob un, sef cyfanswm o 30 marc):

- i. *'Y datganiad o incwm yw'r unig ddatganiad ariannol pwysig sy'n ddefnyddiol neu'n berthnasol o gwbl'*

Gan gyfeirio at y mathau eraill o ddatganiadau ariannol a sut y'u defnyddir, ydych chi'n cytuno â'r datganiad uchod?

(15 marc)

- ii. Rydych wedi penderfynu buddsoddi yn eich portffolio eich hun o gyfranddaliadau, ac wedi bod yn gofyn i gwmnïau anfon eu Hadroddiadau Blynyddol atoch.

- a. Disgrifiwch y math o wybodaeth a geir mewn Adroddiad Blynyddol a nodwch at bwy y mae'r wybodaeth ariannol wedi'i hanelu.

(6 marc)

- b. Rhestrwch pa grwpiau eraill o ddefnyddwyr fyddai'n defnyddio'r wybodaeth hon, a disgrifiwch sut y gallai tri o'r grwpiau hyn o ddefnyddwyr fod yn gwrthdaro â chi pe byddech yn penderfynu buddsoddi.

(9 marc)

- iii. Mae creu partneriaeth ar ôl bod yn unig fasnachwr yn gallu bod yn anodd dros ben.

- a. Trafodwch fanteision ac anfanteision newid i fod yn bartneriaeth.

(10 marc)

- b. Trafodwch y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cyfrifo ar gyfer partneriaeth a chyfrifo ar gyfer cwmni cyfyngedig.

(5 marc)

- iv. Mae'n ymddangos bod mantolen yn dangos faint yw gwerth busnes gan ei bod yn dangos yr holl asedau a'r rhwymedigaethau.

Trafodwch a yw hynny'n wir gan roi enghreifftiau i ategu'ch ateb.
(15 marc)

DIWEDD Y PAPUR